benderfyniad eich apêl os ydych:

- Wedi bod dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.
- Wedi bod yn lletya mewn llety prawf.
- Wedi bod yn destun adroddiad a gafodd ei baratoi amdanoch ar gyfer llys.

Os ydych yn ddioddefwr a ddilynodd y camau hyn ac sy'n dal yn anfodlon â'r penderfyniad.....

Gall yr Ombwdsman Seneddol ystyried eich cwyn os ydych:

- Yn ddioddefwr sy'n derbyn gwasanaethau gan yr NPS dan y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr.
- Yn aelod o deulu dioddefwr a fu farw a'ch bod yn derbyn gwasanaethau dan Gynllun Cyswllt Dioddefwyr yr NPS.

Gallwch gyfeirio eich mater trwy Aelod Seneddol at yr Ombwdsman Seneddol i'w ystyried. Fe gewch chi wybodaeth am fynd â chwyn at yr Ombwdsman Seneddol yn: www.ombudsman.org.uk

www.probation.homeoffice.gov.uk

NPD/001/2006

GWASANAETH PRAWF CENEDLAETHOL

Gwneud cwyn

NOMS Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
National Offender Management Service

Gwneud cwyn

Mae gwneud pethau'n iawn yn bwysig i ni

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gweithio i safonau uchel ac rydym yn gobeithio bod hynny'n cael ei adlewyrchu yn ein gwaith gyda chi.

Mae hynny'n swnio'n iawn - ond beth os bydd gennyf gwyn?

Er mwyn cael ei hystyried, mae'n rhaid i'ch cwyn fod am weithred neu benderfyniad a gymerwyd gan aelod o'r staff prawf, y Bwrdd Prawf lleol, aelod o'r Bwrdd, contractiwr, asiant neu wirfoddolwr sy'n gweithio i'r gwasanaeth prawf. Fe allwch chi gwyno hefyd oherwydd bod un o'r bobl hyn wedi methu gweithredu neu fethu gwneud penderfyniad.

Fe wnawn ni ystyried eich cwyn:

- Os ydych neu os buoch dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.
- Os ydych neu os ydych ar fin bod yn destun adroddiad a fydd yn cael ei ddefnyddio gan lys.
- Os ydych wedi dioddef niwed corfforol, trallod, difrod neu ddwyn eiddo o ganlyniad i weithredoedd troseddwr sy'n cyflawni gweithgareddau dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf fel rhan o orchymyn cymunedol neu drwydded carchar..
- Os ydych yn ddioddefwr i berson a gafodd ei ddyfarnu'n euog o drosedd ac sydd dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Os ydych yn rhiant, priod neu'n bartner cyd-fyw, yn frawd, chwaer neu blentyn i rywun, yn y categorïau uchod, a fu farw.

Allwn ni ddim ystyried rhywbeth sydd eisoes yn rhan o archwiliad gan yr heddlu neu sy'n ddarostyngedig i benderfyniad y llysoedd, tribiwnlys statudol, Bwrdd Parôl, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol.

Fel arfer, ni fydd eich cwyn yn cael ei hystyried os yw'n ymwneud â rhywbeth a ddigwyddodd fwy na 12 mis yn ôl, neu rywbeth y gallech fod yn gwybod amdano flwyddyn yn ôl.

Siarad sydd orau

Siarad wyneb yn wyneb neu dros y ffon gyda'r person dan sylw yw'r ateb yn aml iawn.

Os yw hyn yn anodd, gofynnwch am gael trafod y mater gydag aelod uwch o'r staff.

Ar bapur

Gallwch ysgrifennu i wneud cwyn ffurfiol. Rhowch eich llofnod ar y gwaelod a'i hanfon at Brif Swyddog Prawf y Rhanbarth.

Fe gewch chi'r holl enwau a chyfeiriadau yn www.probation.homeoffice.gov.uk dan yr adran Contact Us section (Local Probation Areas).

O fewn pum niwrnod gwaith i dderbyn eich llythyr bydd y Prif Swyddog yn ysgrifennu atoch i esbonio sut y bydd yn ymdrin â'ch cwyn. Bydd yn rhoi dyddiad pryd y gallwch ddisgwyl y canlyniad.

Os yw eich cwyn yn ymwneud â mater sy'n cynnwys y Prif Swyddog, cyfeiriwch eich llythyr at Ysgrifennydd eich Bwrdd Prawf lleol.

Os nad ydych yn fodlon â'r canlyniad

Gallwch apelio o fewn 15 niwrnod i dderbyn y canlyniad. Ysgrifennwch at Ysgrifennydd y Bwrdd Prawf. Esboniwch pam rydych eisiau apelio. Bydd yr Ysgrifennydd yn cydnabod eich llythyr o fewn pum niwrnod gwaith i'w dderbyn.

Bydd panel, a fydd yn cynnwys o leiaf un aelod o'r Bwrdd, yn edrych ar eich apêl. Gallant ofyn am gael cwrdd â chi a'r swyddog ymchwilio.

Bydd y canlyniad yn cael ei anfon atoch o fewn 20 niwrnod gwaith i dderbyn yr apêl.

Bydd y panel yn rhoi gwybod i chi os bydd arnynt angen rhagor o amser i wneud penderfyniad.

Os ydych yn droseddwr a ddilynodd y camau hyn ac sy'n dal yn anfodlon â'r penderfyniad.....

Gallwch ysgrifennu at Ombwdsman y Carcharau a Phrawf yn Ashley House, 2 Monck Street, Llundain SW1P 2BQ, o fewn un mis i